| |
|---|
| **GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG** |
| **214 - Rheoliadau Cynhyrchion Organig (Dynodyddion Organig) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020**<br>*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 5 Ionawr 2021* |

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU? | Na |
| Gweithdrefn: | Gwneud Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Dim angen |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Gweithdrefn | Gwneud Cadarnhaol |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau gweithredol i ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir yn ymwneud â chynhyrchion organig, i sicrhau ei bod yn parhau'n gydlynol ac yn parhau i weithredu fel y bwriadwyd ar ôl i'r DU adael yr UE.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 834/2007 a ddargedwir ar gynhyrchu organig a labelu cynnyrch organig i sicrhau bod rheoliadau labelu organig yn gweithio mewn cyfraith ddomestig. Maent yn dileu'r gofyniad gorfodol i logo organig yr UE gael ei ddefnyddio ym Mhrydain Fawr ac yn nodi rheolau ar gyfer defnyddio unrhyw logo organig y Deyrnas Unedig pan gaiff ei ddatblygu. Mae'r offeryn hefyd yn diwygio'r

datganiad o darddiad amaethyddol i gyfeirio at y DU ac yn darparu bod yn rhaid ei ddefnyddio ar gynhyrchion organig Prydain Fawr hyd yn oed os nad oes logo y DU.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 8 Ionawr 2021 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.